**<u>Trefniadau Newydd ar gyfer y Cyngor</u>**

## 1. Pwrpas

1.1 Pwrpas y papur hwn yw rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor ar y trefniadau newydd sy'n berthnasol i ffyrdd y Cyngor o weithio.

## 2. Cyd-destun a Newid

2.1 Mae'r Cyngor yn elfen bwysig o Gynllun Busnes Gweinidogion Cymru. Mae ganddo ddwy swyddogaeth o ddarparu:

- Fforwm ar gyfer cynrychiolwyr amrywiol o fusnesau, mentrau cymdeithasol ac undebau llafur i lywio a dylanwadu ar bolisïau ar draws nifer o feysydd sy'n berthnasol i'r economi;
    - Ffordd i Weinidogion Cymru roi'r newyddion diweddaraf i bartneriaid cymdeithasol gyda'r datblygiadau pwysicaf.

2.2 Mae'r Cyngor a'i swyddogaethau yn gweithredu yn ychwanegol i'r cyfarfodydd y mae sefydliadau busnes, yr undebau llafur ac eraill yn eu cael gyda Gweinidogion Cymru ac uwch-Swyddogion fel rhan o faterion busnes arferol.

2.3 Mae'r Cyngor yn bartneriaeth eang o gyrff sy'n galluogi Gweinidogion i dderbyn barn am ystod o faterion sy'n gysylltiedig â'r economi o amrywiol safbwyntiau.

2.4 Fodd bynnag, yn dilyn papurau i gyfarfodydd blaenorol y Cyngor ar drefniadau gweithio, mae rhai newidiadau yn cael eu gwneud a fydd yn diweddaru ac yn cryfhau trefniadau gweithio. I grynhoi:

- Newid enw'r Cyngor Adnewyddu i'r Cyngor Datblygu Economaidd;
- Mwy o gyswllt gyda polisi cyflogaeth a sgiliau ôl-16 drwy agendâu y Cyngor a chynnwys sgiliau ehangach trwy sefydlu dolen ffurfiol gyda Bwrdd Sgiliau Cyflogaeth Cymru;
- Y Gweithgor Gweithredol yn dod i ben a holl Aelodau'r Cyngor yn cael y cyfle i gyfrannu at bennu yr agenda.
- Ar wahân i'r Cyngor, llunio Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol i roi fforwm i bartneriaid cymdeithasol rannu eu profiad a'u gwybodaeth a chyfrannu at ddatblygu strategaeth Llywodraeth Cymru.

2.5 Ceir rhagor o fanylion yma ar y newidiadau hyn a'r rhesymeg y tu ôl iddynt.

**3. Newid Enw**

3.1 Mae enw presennol y Cyngor yn dyddio o'r cyfnod yn syth wedi'r argyfwng ariannol byd-eang ar ddiwedd y ddegawd ddiwethaf. Nid yw adnewyddu economaidd bellach yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru a byddai newid yr enw i'r Cyngor Datblygu Economaidd yn fwy priodol. Mae'r newid enw yn adlewyrchu pwrpas y Cyngor yn well.

4. **Cysylltu mwy gyda pholisi cyflogaeth a sgiliau ôl-16**

4.1 Mewn trafodaethau blaenorol â'r Cyngor, bu cais am fwy o drafod ar yr agenda cyflogaeth a sgiliau ôl-16. O ystyried pwysigrwydd yr agenda sgiliau i ganlyniadau economaidd, sefydlir cyswllt ffurfiol rhwng y Cyngor a Bwrdd Sgiliau Cyflogaeth Cymru (WESB). Bydd hyn yn cynnwys gwahodd Cadeirydd WESB i ymuno â'r Cyngor ac felly sicrhau bod y strwythurau yn alinio yn well. Bydd mwy o drafod y polisi cyflogaeth a sgiliau ôl-16 yn cael ei annog drwy agendâu y Cyngor yn y dyfodol.

4.2 Ochr yn ochr â gwahodd Cadeirydd WESB i eistedd ar y Cyngor, mae WESB ei hun yn y broses o gael ei ddiweddaru a'i ddiwygio i sicrhau bod y canolbwyntio cryf ar y gweithiwr yn parhau. Hefyd, bydd Cadeiryddion y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn eistedd ar WESB, gan sicrhau bod blaenoriaethau o ran sgiliau rhanbarthol yn cael eu cysylltu ag anghenion gweithwyr.

**5. Grŵp Strategaeth Partneriaid Cydmeithasol**

5.1 Er bod y Cyngor yn chwarae rhan bwysig ac angenrheidiol drwy gyflawni ei gylch gwaith fel partneriaeth statudol gydag amrywiol safbwyntiau – nid yw yn cyfarfod yn ddigon aml i'w gwneud hi'n bosib i drafod materion cyfredol.

5.2 Yn ystod trafodaethau'r Cyngor â'r Gweithgor Gweithredol, mae rhai o aelodau'r Cyngor wedi codi'r mater gyda Gweinidogion Cymru. Mae'r trafodaethau hyn wedi tynnu sylw at yr awydd i sefydlu grŵp newydd, ar wahân i'r Cyngor, sy'n cyfarfod yn amlach.

5.3 Cafwyd cynnig gan Weithgor Gweithredol y Cyngor i sefydlu Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol Tridarn fel dull o sefydlu trefniadau mwy effeithiol ar gyfer trafodaethau strategol rheolaidd a pharhaus rhwng partneriaid cymdeithasol, Gweinidogion Cymru ac Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru.

5.4 Mae'r Grŵp bellach wedi ei sefydlu, yn cynnwys naw aelod, tri ohonynt o Commerce Cymru, o TUC Cymru ac o Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd i TUC Cymru a Commerce Cymru enwebu tri aelod yr un. O ganlyniad i hynny dyma aelodaeth y Grŵp:

**Llywodraeth Cymru**

- Y Prif Weinidog
- Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
- Prif Swyddog

**TUC Cymru**

- Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru - Martin Mansfield
- Llywydd, TUC Cymru - Nick Ireland
- Llywydd Etholedig, TUC Cymru - Mike Jenkins

**Commerce Cymru**

- Cadeirydd, Commerce Cymru – Paul Byard, EEF
- CBI Cymru – Ian Price
- FSB Cymru – Ben Cottam

5.5 Bydd yn bosibl i sefydliadau busnes ac Undebau Llafur barhau i gyfarfod gyda Gweinidogion fel rhan o fusnes arferol.

## 6. Gweithgor Gweithredol

6.1 Mae Gweithgor y Cyngor wedi galluogi i gyfarfodydd mwy rheolaidd gael eu cynnal rhwng grŵp llai o aelodau'r Cyngor a swyddogion Llywodraeth Cymru. Bu hefyd yn ddull o gynnal busnes gweinyddol y Cyngor – megis cytuno ar agendâu y Cyngor a sicrhau bod camau i'w cymeryd wedi eu cyflawni.

6.2 Mae'r Gweithgor Gweithredol bellach yn dod i ben o ystyried y datblygiadau uchod. Bydd swyddogaeth weinyddol y Gweithgor yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, fydd yn cysylltu yn uniongyrchol â holl Aelodau'r Cyngor ar agendâu etc yn y dyfodol.

## 7. Camau Nesaf

7.1 Gwahoddir y Cyngor i nodi:

a) newid enw y Cyngor Datblygu Economaidd;

b) sefydlu cysylltiad ffurfiol rhwng y Cyngor a Bwrdd Sgiliau Cyflogaeth Cymru (WESB) i gynnwys gwahodd Cadeirydd WESB i ddod yn aelod o'r Cyngor.

c) y bydd agendâu yn y dyfodol yn rhoi'r cyfle am fwy o drafod gyda Addysg Bellach ac Uwch;

d) y Gweithgor Gweithredol yn dod i ben;

e) y cytunir ar agendâu y Cyngor yn y dyfodol drwy gael Llywodraeth Cymru i gydweithio gydag Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru a fydd yn ymgynghori'n uniongyrchol gyda holl Aelodau'r Cyngor;

f) sefydlu Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol.